Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod y Bwrdd
9 Gorffennaf 2013

Teitl y Papur	**Cynnydd y Cynllun Corfforaethol a'r camau nesaf**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B (O) 18.13**
Papur wedi'i noddi gan: **Papur wedi'i ysgrifennu gan:**	**Ceri Davies** **John Hogg**

Pwrpas y Papur:	Amlinellu'r cynnydd a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2014-17.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a chymeradwyo'r camau nesaf. Gofynnir i'r Bwrdd gynorthwyo â'r digwyddiadau allanol a cheisio barn aelodau eu rhwydweithiau.

Effaith:	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd gennym gynllun clir yn nodi'r deilliannau amgylcheddol yr ydym am eu cyflawni. **Effaith ar yr Economi**: Bydd gennym gynllun clir yn nodi sut y gallwn gefnogi'r economi a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. **Effaith ar Gymuned**: Bydd gennym gynllun clir yn nodi ein gwaith mewn cymunedau a sut y byddwn yn cydweithio ag eraill. **Effaith ar Wybodaeth**: Byddwn yn datblygu ein cronfa dystiolaeth a gwybodaeth er mwyn llywio ein gwaith a mesur ein perfformiad.

Mater

1. Mae ein Cynllun Corfforaethol cyntaf yn gyfle pwysig i ni ddisgrifio sut y byddwn yn cydweithio ag eraill i gyflawni ein pwrpas. Ynddo, byddwn yn gosod cyd-destun ein gwaith, y blaenoriaethau rydym wedi'u cytuno â Llywodraeth Cymru a'r gyllideb y byddwn yn gweithio o'i mewn. Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 2 Mai, cymeradwywyd proses ac amserlen baratoi'r Cynllun Corfforaethol. Dros y ddau fis nesaf, byddwn yn dilyn y broses hon i ddatblygu ein syniadau ar y cyd â'n rhanddeiliaid a'n staff mewn ysbryd o gyd-gynhyrchu, i sicrhau y gallwn gyflawni Cynllun Corfforaethol a fframwaith perfformiad cysylltiedig sy'n berthnasol, yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys pawb.

Cefndir

2. Ein prif rôl yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a bodloni'r amcanion a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru. Mae ein Llythyr Cylch Gwaith cyntaf gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn galw arnom i baratoi Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2014 tan ddiwedd tymor cyfredol y Cynulliad.

3. Mae disgwyl i ni drefnu ein gwaith i helpu cyflawni deilliannau hirdymor Llywodraeth Cymru ac i ddatblygu diben cyffredin â holl bartneriaid cyflenwi Llywodraeth Cymru sy'n rhannu'r deilliannau hyn. Bydd angen adlewyrchu hyn yn eich Cynllun Corfforaethol ac mae'n dangos pwysigrwydd cynnwys partneriaid a rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun.

4. Bu i'r gwaith paratoadol gychwyn gyda sesiynau Grwpiau'r Bwrdd ar 16 Ebrill 2013 i amlinellu eu rôl o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid strategol. Yn ogystal, bu i gyfarfod llawn cyntaf y Grŵp Arweinyddiaeth ar 25 Ebrill 2013 gynnwys trafodaeth ar eu rôl o ran gyrru'r broses ymlaen gyda'n staff a'n rhanddeiliaid, a sut y bydd angen i hyn ddigwydd ar draws sefydliadau.

5. Ar 21 Mai, cymeradwyodd y Bwrdd y ffordd ymlaen a'r amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Corfforaethol.

Cynnydd hyd yma a'r Camau Nesaf

6. Yn unol â'n hamserlen [gweler Atodiad 1], rydym bellach yn symud ymlaen i gam ymgysylltu datblygu'r Cynllun Corfforaethol. Bydd y digwyddiadau ymgysylltu sydd ar y gweill yn casglu ynghyd grwpiau cymysg o randdeiliaid mewnol ac allanol ynghyd â chynnwys polisi Llywodraeth Cymru gyda rôl sylwedydd. Bydd y digwyddiadau'n cael eu cynnal fel a ganlyn:

Dyddiad	Amser	Lleoliad
2 Gorffennaf 2013	10.00 – 12.30 1.30 – 4.00	Canolfan Ymwelwyr Coedwig Garwnant Ger Merthyr Tudful CF48 2HU
4 Gorffennaf 2013	1.30 – 4.00	Tŷ Ladywell, Stryd y Parc, Y Drenewydd, SY16 1JB

9 Gorffennaf 2013	10.00 – 12.30 1.30 – 4.00	Tŷ Menai, Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, LL57 4FH
11 Gorffennaf 2013	10.00 – 12.30 1.30 – 4.00	Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin SA31 3EP

Ym mhob digwyddiad, bydd gwybodaeth ar gael i helpu paratoi'r ffordd o ran yr heriau sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru a'r hyn y gallem ei wneud i fynd i'r afael â hwy. Yna, byddwn yn gofyn i'r mynychwyr ystyried y canlynol:

- A ydym wedi adnabod yr heriau cywir? Oes yna unrhyw fylchau?
- O wybod beth rydym yn ei wneud, oes yna bethau y gallwn eu gwneud yn wahanol a beth sydd bwysicaf?
- Sut allwn ni gydweithio'n well i gyflawni'r deilliannau?
- Beth yw ein prif flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol?

7. Yng nghyfarfod y Bwrdd fis Mai, holwyd sut y mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i gysylltu â strategaeth fusnes a rhaglen newid. Pennodd ystyriaeth ddilynol gan y Tîm Gweithredol y dylai'r Cynllun Corfforaethol ymdrin â'r agweddau hyn ynghyd â'r blaenoriaethau a'r gyllideb fel cyd-destun ein gwaith.

8. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal gweithgareddau yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod. Bydd ceisio mewnbwn ac esbonio ein dull o weithredu'r Cynllun Corfforaethol yn agwedd gyffredin i'r holl weithgareddau y byddwn yn eu cynnal yn y ddwy sioe.

9. Mae cynnwys y staff o gychwyn cyntaf y broses yn eithriadol o bwysig. Byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau staff drwy gydol mis Gorffennaf, dan arweiniad y Grŵp Arweinyddiaeth, er mwyn ennyn eu diddordeb mewn sgwrsio am ein pwrpas, ein blaenoriaethau, ein huchelgeisiau a'n heriau i lywio ein datblygiad sefydliadol a'r Cynllun Corfforaethol. Un nodwedd allweddol fydd gwrando ar yr hyn sydd gan ein staff i'w ddweud er mwyn paratoi camau i fynd i'r afael â'r heriau. Ychwanegir at y sesiynau hyn gyda chyfleoedd ymgysylltu ychwanegol yn ôl yr angen, i sicrhau ein bod yn cyrraedd pob aelod o'n staff.

10. Mae mewnbwn y staff a'r Bwrdd drwy eu rhwydweithiau yn bwysig er mwyn annog rhanddeiliaid allweddol i fynychu'r digwyddiadau a hefyd i godi proffil y Cynllun Corfforaethol a chlywed safbwyntiau pobl eraill y byddant yn dod ar eu traws yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Er mwyn helpu gyda hyn, cynhyrchwyd nodyn gwybodaeth a thempled y gofynnwn i aelodau'r Bwrdd a staff eu defnyddio wrth sgwrsio â rhanddeiliaid. Fel hyn, gellir casglu mewnbwn ar ffurf safonol fydd o gymorth wrth ei ddadansoddi ac o fudd i sicrhau yr ystyrir safbwyntiau'n deg.

11. Mae mewnbwn Llywodraeth Cymru wedi cychwyn gyda phresenoldeb mewn cyfarfod fforwm polisi ar 11 Mehefin, a nododd ein dull gweithredu ac a geisiodd fewnbwn ar sail y saith deilliant a rennir. Rydym yn dychwelyd i'r fforwm ar 24 Medi gyda'n cynllun drafft cyntaf cyn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

12. Darparwyd cyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer sylwadau pellach gan bob rhanddeiliad – staff, sefydliadau partner a'r cyhoedd yn ehangach – i sicrhau y cawn amrediad eang o fewnbwn. Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu i drosglwyddo negeseuon sy'n ymwneud â datblygiad y Cynllun Corfforaethol.

13. Bydd y dull cynhwysol hwn yn arwain at Gynllun Corfforaethol sy'n berthnasol, yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn cynnwys pawb. Bydd hefyd yn darparu sicrwydd o ran cyfrifoldebau statudol ac amcanion Gweinidogol ac yn sicrhau cronfa dda o dystiolaeth.

14. Bydd buddsoddi amser yn gwneud hyn, ac ymgysylltu mewn modd cydweithredol, yn arwain at ddrafft cyntaf cadarn o'r cynllun sy'n dangos y pwrpas cyffredin gofynnol. Cawn ein gwobrwyo am yr ymdrech hon ymlaen llaw gyda chyfnod byrrach o ymgynghoriad cyhoeddus.

15. Bydd Fframwaith Perfformiad, a nodwyd unwaith eto yn y Llythyr Cylch Gwaith, yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol fel mecanwaith i ddangos ein cyfraniad i'r deilliannau hyn. Bydd mwy o fanylion ar gael wrth i'r cam ymgysylltu fynd rhagddo.

Risgiau

16. Mae paratoi a rheoli cam ymgysylltu'r broses yn hanfodol i lwyddiant camau diweddarach yr amserlen. Gallai cam gwag yma arwain at ymatebion i'r ymgynghoriad a sylw gan y cyhoedd, diwydiannau a gwleidyddion allai arwain at oedi wrth baratoi'r ddogfen derfynol a cheisio cymeradwyaeth Weinidogol erbyn Ebrill 2014. Byddai hyn yn oedi ein hymdrech i wireddu synnwyr cyfeiriad cadarn.

17. Rheoli disgwyliadau ein rhanddeiliaid: mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ond eto'n realistig yn ein Cynllun Corfforaethol wrth i ni ddatblygu enw da Cyfoeth Naturiol Cymru.

Goblygiadau Ariannol

18. Bydd costau ynghlwm â chynnal digwyddiadau ymgysylltu a chyhoeddi copïau caled o'r ddogfen derfynol, os bydd angen gwneud hynny.

19. Bydd angen amser staff i gymryd rhan yn y sgyrsiau yn ystod mis Gorffennaf.

20. Bydd angen seilio'r Cynllun Corfforaethol ar ein rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio

21. Mae dyletswydd ar y Bwrdd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n Dogfen Fframwaith a'r Llythyr Cylch Gorchwyl drwy gael Cynllun Corfforaethol wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog.

Cyfathrebu

22. Bydd paratoi a lansio Cynllun Corfforaethol yn golygu ymgysylltiad sylweddol â rhanddeiliaid a chyflwyniadau cyhoeddus. Mae Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu eisoes wedi'i baratoi.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

23. Bydd gofyn cynnal asesiad o effaith y Cynllun Corfforaethol newydd ar gydraddoldeb cyn ei gyhoeddi'n ffurfiol.

21/06/22013 Final

Atodiad 1

Amserlen Proses y Cynllun Corfforaethol

Dangosir dyddiadau'r penderfyniadau / cerrig milltir allweddol mewn **print trwm**

Pryd	Beth	Pwy
Mai 2013	Cychwyn ar y prosiect a sefydlu tîm traws-sefydliadol Archwilio, mapio a chynllunio ymgysylltiad rhanddeiliaid Archwilio, mapio a chynllunio ymgysylltiad staff Archwilio, mapio a chynllunio rôl y Bwrdd, yr EDT a'r Grŵp Arweinyddiaeth	Cynllunio Corfforaethol Cyfathrebu a'r tîm traws-sefydliadol
Mai 2013 (21ain)	**Cadarnhau'r Broses a'r Amserlen**	**Y Bwrdd**
Mehefin a Gorffennaf 2013	Ymgysylltu'n gynnar drwy bedwar digwyddiad rhanbarthol ar sail dull cyd-gynhyrchu o gymysgu rhanddeiliaid allanol, rhanddeiliaid mewnol a Pholisi Llywodraeth Cymru ym mhob digwyddiad. Sesiwn mewnbwn ac adolygu ymgysylltiad y Bwrdd (cyfarfod y Bwrdd 9/7/13). Ymgysylltiad wedi'i dargedu a pharhaus gan swyddogion ac aelodau allweddol y Bwrdd. Digwyddiad galw heibio yn y Sioe Frenhinol (22-25/7/13) a'r Eisteddfod (4-11/8/13) i gynnwys arwyddion cynnar o faterion sy'n codi ac i gasglu mewnbwn terfynol cyn yr ymgynghoriad ffurfiol.	Y Bwrdd, y Grŵp Arweinyddiaeth, Cynllunio Corfforaethol, y tîm traws-sefydliadol, Nawdd Adrannol a Chyfathrebu
Gorffennaf 2013	Adolygu'r strategaeth fusnes sy'n amlygu a'r rhaglen ddatblygiad sefydliadol, gan brofi "sut rydym yn gweithredu".	Grŵp Arweinyddiaeth, Cynllunio Corfforaethol a Datblygiad Sefydliadol
Awst 2013	Adolygu a chydosod allbwn yr ymgysylltiad mewn drafft cyntaf o'r Cynllun Corfforaethol.	Tîm traws-sefydliadol a Chynllunio Corfforaethol
Medi 2013 (10fed)	**Adolygiad gweithredol o ddrafft cyntaf y Cynllun Corfforaethol**	**Tîm traws-sefydliadol a'r Tîm Gweithredol**
Hydref 2013 (16eg)	**Y Bwrdd yn adolygu drafft cyntaf y Cynllun Corfforaethol**	**Y Bwrdd**
Hydref 2013	Drafft cyntaf y Cynllun Corfforaethol wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus	Cyfathrebu a Chynllunio Corfforaethol
Tachwedd a Rhagfyr 2013	Ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol am wyth wythnos. Paratoi Fframwaith Perfformiad fel atodiad i'r Cynllun Corfforaethol i ddangos cyfraniad at y deilliannau	Cynllunio Corfforaethol, tîm traws-sefydliadol a Nawdd

	Ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Adrannol
Ionawr 2014	Adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad a pharatoi ymateb gan gynnwys ailddrafftio'r Cynllun Corfforaethol	Cynllunio Corfforaethol a'r tîm traws-sefydliadol
Ionawr 2014	**Y Pwyllgor Gwaith yn adolygu'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad ac ail ddrafft y Cynllun Corfforaethol**	**Pwyllgor Gwaith a'r tîm traws-sefydliadol**
Chwefror 2014 (12fed)	**Y Bwrdd yn adolygu ac yn cadarnhau'r ymateb i'r ymgynghoriad ac ail ddrafft y Cynllun Corfforaethol**	**Y Bwrdd**
Chwefror 2014	Diwygiadau a pharatoadau terfynol i'r Cynllun Corfforaethol drafft ar gyfer ei gyflwyno ger bron y Gweinidogion	Cynllunio Corfforaethol, tîm traws-sefydliadol a Chyfathrebu
Mawrth 2014 (3ydd)	**Cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad a drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol yn ffurfiol i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**	**Cadeirydd**
Mawrth 2014	Paratoi'r lansiad Diweddariad terfynol y Fframwaith Perfformiad	Cynllunio Corfforaethol, tîm traws-sefydliadol a Chyfathrebu Cynllunio Corfforaethol a'r tîm traws-sefydliadol
Mawrth 2014 (21ain)	**Cymeradwyaeth y Gweinidog**	**Nawdd Adrannol**
Ebrill 2014 (1af)	**Lansio'r Cynllun Corfforaethol**	**Y Bwrdd, Pwyllgor Gwaith a Chyfathrebu**